Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Clever Clogs**
**109 Ffordd y Gors**
**Y Rhyl**
**LL18 2AB**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 21/04/2017**

## Cyd-destun

Meithrinfa ddydd breifat yn Y Rhyl, Sir Ddinbych, yw Clever Clogs.  Mae'r lleoliad yn agor bum niwrnod yr wythnos.

Mae'r feithrinfa wedi'i chofrestru i dderbyn hyd at 45 o blant rhwng dwy a phedair oed ar unrhyw adeg benodol.  Ar hyn o bryd, mae 12 o blant yn derbyn addysg wedi ei hariannu gan yr awdurdod lleol yn y lleoliad ac mae Dechrau'n Deg yn ariannu 14 o blant iau.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig ac yn siarad Saesneg fel eu mamiaith.  Ar hyn o bryd, mae gan leiafrif o'r plant sy'n mynychu'r lleoliad anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r perchennog wedi rheoli'r lleoliad ers iddo agor yn Ionawr 2004.  Mae tri ymarferwr amser llawn yn goruchwylio'r lleoliad tair oed ac mae gan bob un ohonynt gymwysterau a phrofiad addas i weithio gyda phlant ifanc.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym Mehefin 2015.  Arolygwyd y lleoliad gan Estyn yn flaenorol ym Mai 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad o fan cychwyn cymharol isel
- Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn dda yn unol â'u cyfnod datblygu
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd
- Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais
- Mae ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cefnogi dysgu'r plant yn dda
- Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob plentyn ac maent yn herio plant yn synhwyrol yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd
- Mae ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn llwyddiannus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r rheolwr yn rhoi cyfarwyddyd clir i waith bob dydd a thymor hir y lleoliad ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel o staff a phlant
- Ceir diwylliant cryf o hunanarfarnu a gwelliant rheolaidd yn y lleoliad
- Mae ymarferwyr yn elwa ar hyfforddiant a datblygiad proffesiynol effeithiol
- Ceir partneriaethau llwyddiannus gyda rhieni ac asiantaethau allanol ac mae'r rhain yn cefnogi'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn bwrpasol
- Mae cymorth synhwyrol y rheolwr yn creu darpariaeth effeithiol a chyson
- Mae'r rheolwr yn defnyddio'r gyllideb yn bwrpasol ac mae'n blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau yn y cynllun datblygu yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Gwella'r ddarpariaeth i sicrhau bod plant yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol

A2 Darparu cyfleoedd gwell i blant ddatblygu eu hannibyniaeth amser byrbryd

A3 Defnyddio'r ardal yn yr awyr agored yn rheolaidd ac yn gyson i gyfoethogi profiadau plant

A4 Sicrhau bod targedau yn y cynllun datblygu yn deillio'n uniongyrchol o broses hunanarfarnu'r lleoliad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

O fan cychwyn is na'r cyfartaledd, mae llawer o blant yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad ar y cyfan. Maent yn siarad am brofiadau blaenorol yn synhwyrol ac yn gweithio gyda'i gilydd a gydag oedolion yn llwyddiannus i ddatblygu eu medrau.

Mae llawer o blant yn defnyddio patrymau iaith ac ymadroddion yn bwrpasol heb anogaeth gan oedolion mewn chwarae anffurfiol ac yn ystod tasgau ffocws. Maent yn ymateb yn ddeallus i gwestiynau ymarferwyr yn ystod amser stori ac wrth gyfrif cerrig bach mewn potiau wedi'u rhifo. Mae llawer o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau. Maent yn deall diben y lluniau ac yn trafod cymeriadau cyfarwydd yn effeithiol. Mae llawer o blant yn trin a thrafod llyfrau yn yr ardal ddarllen fel darllenwyr cynnar hyderus. Maent yn cysylltu gweithredoedd ag emosiynau yn gywir, fel adnabod y blaidd fel y dihiryn yn stori'r tri mochyn bach.

Mae llawer o blant yn creu marciau yn effeithiol wrth arbrofi â gwahanol gyfryngau. Maent yn dyfalbarhau yn dda â phrofiadau ysgrifennu cynnar ac yn defnyddio sialc ar îsl ac ysgrifbinnau lliw i gopïo siapiau a llinellau yn llwyddiannus. Mae llawer o blant yn esbonio ysgrifennu yn y cyd-destun cywir, er enghraifft mewn asiantaeth deithio ac wrth chwythu llythrennau mewn tywod â gwellt. Mae rhai plant hŷn yn adnabod eu henwau eu hunain ac mae ychydig iawn o blant yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau mewn ffurfiau adnabyddadwy.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol wrth iddynt chwarae, i drafod siapiau a pharu blociau â rhifau yn y drefn gywir. Mae llawer o blant yn adnabod, yn enwi ac yn cyfrif rhifau i bump gyda chymorth oedolyn. Mae lleiafrif ohonynt yn cyfrif i ddeg a thu hwnt yn gywir wrth ddidoli siapiau, gwrthrychau, cerrig bach a phegiau gwahanol liwiau. Defnyddiant rifau yn bwrpasol mewn gweithgareddau ymarferol wrth gymharu nifer y siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn a ddefnyddir wrth adeiladu tŷ, ac wrth gyfrif nifer y trenau sy'n teithio o amgylch trac. Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall gwahaniaethau mewn maint wrth fesur gwrthrychau â thâp mesur ac archwilio cregyn â chwyddwydr. Maent yn esbonio'n llwyddiannus p'un a yw gwrthrychau'n 'fawr' neu'n 'fach' ac yn 'dal' neu'n 'fyr'.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu defnydd o'r Gymraeg yn briodol, o ystyried eu cefndir ieithyddol. Mae llawer o blant yn dilyn cyfarwyddiadau a roddir yn Gymraeg yn briodol ac mae rhai ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol heb anogaeth gan oedolion, yn enwedig wrth gyfrif. Mae'r rhan fwyaf o blant yn canu hwiangerddi a chaneuon dyddiol yn Gymraeg yn frwdfrydig. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio technoleg yn briodol wrth ddefnyddio camerâu a chyfrifiadur mewn gweithgareddau bob dydd. Fodd bynnag, mae eu defnydd o feddalwedd addysgol i ddatblygu eu medrau meddwl a TGCh yn gyfyngedig o ganlyniad i ddiffyg adnoddau technolegol.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth yn astud ac yn perfformio'n frwdfrydig ar lwyfan a gyda microffonau ac amrywiaeth o offerynnau taro. Maent yn datblygu eu medrau corfforol yn dda pan fyddant yn dawnsio i gerddoriaeth fywiog ar eu pen eu hunain a gyda'i gilydd. Mae llawer o blant yn dewis offer a deunyddiau yn effeithiol i ddatrys problemau ymarferol, fel defnyddio glud, blychau cardfwrdd a deunyddiau naturiol i adeiladu gwahanol dai a modelau o sbwriel.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad. Maent wedi eu cymell yn dda ac yn dangos diddordeb yn eu dysgu, ac mae'r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio'n dda yn ystod tasgau. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau ym mhob maes dysgu ac yn rhannu a gweithio'n synhwyrol gyda phlant eraill. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd, er enghraifft wrth arbrofi â thywod gwlyb, olwyn ddŵr a thoes hydrin.

Mae llawer o blant yn ddysgwyr hyderus ac yn gweithio'n annibynnol yn ystod gweithgareddau chwarae. Mae hyn yn amlwg pan fydd llawer ohonynt yn esbonio'n feddylgar pa feysydd dysgu sy'n cynnwys eu hoff weithgareddau a pha dasgau ymarferol sydd o'r diddordeb mwyaf iddynt.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac maent yn gwrtais. Maent yn dangos parch wrth ymateb i oedolion a'i gilydd. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n ofalus ar oedolion, er enghraifft pan fyddant yn brwsio eu dannedd gyda'i gilydd a phan fyddant yn gwisgo eu dillad awyr agored. Ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae anniben a gweithgareddau awyr agored, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr heb ormod o anogaeth gan ymarferwyr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau mynegi eu barn a'u hoffterau personol yn briodol. Mae hyn yn amlwg pan fyddant yn penderfynu parhau â thasg benodol neu ddechrau gweithgaredd newydd o'u dewis eu hunain.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Ar y cyfan, mae profiadau dysgu yn targedu diddordebau ac anghenion plant yn effeithiol. Maent yn darparu cyfleoedd cadarnhaol ar gyfer dysgu annibynnol yn ystod gweithgareddau chwarae wedi eu cynllunio. Maent yn galluogi plant i ddewis offer addas i ddatrys problemau ymarferol sy'n gysylltiedig â'r thema gyfredol, er enghraifft eu hannog i adeiladu tai ar gyfer y tri mochyn bach gan ddefnyddio siapiau tri dimensiwn.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n dda i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl plant yn raddol a chyson. Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gyflwyno gweithgareddau pwrpasol, yn enwedig dan do. Gwnânt yn siŵr fod tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu. Maent yn darparu cyfleoedd synhwyrol i blant gyfrannu eu syniadau at gynllunio yn ystod amseroedd cylch.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd ysgogol i blant ddatblygu eu medrau creadigol a mynegiannol yn dda trwy chwarae rôl yn y gornel gartref a'r ardal gwisgo i fyny. Maent yn canolbwyntio ar fedrau ymchwiliol yn effeithiol yn yr ardaloedd darganfod, er enghraifft darparu cyfleoedd i blant arbrofi â llenwi a gwacáu blychau â thywod gwlyb. Mae'r gweithgareddau hyn yn adeiladu'n systematig ar ddealltwriaeth a medrau presennol plant yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn cydnabod bod medrau Cymraeg plant ar lefel isel pan fyddant yn dechrau yno. Mae ymarferwyr yn mynd i'r afael â hyn yn effeithiol trwy ddangos enghreifftiau o eiriau syml, rhifau, lliwiau ac ymadroddion yn rheolaidd. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o blant o'r iaith yn datblygu'n briodol. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd addas i blant ddefnyddio offer fel camerâu, cyfrifiadur a chwaraeydd cryno ddisgiau. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau TGCh yn llawn, trwy ddefnyddio offer electronig a meddalwedd addysgol sy'n fwy heriol.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Er enghraifft, mae aelodau o'r gwasanaethau brys, ffermwyr lleol a hylenyddion deintyddol yn addysgu plant yn bwrpasol am rolau pobl yn eu cymuned. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r ardal ailgylchu gyfagos, yr uwch-archfarchnad leol, siop anifeiliaid anwes, y traeth ac ardaloedd natur lleol i hyrwyddo dealltwriaeth plant o'u cymuned eu hunain yn synhwyrol.

**Addysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn cyfarch plant yn gynnes ac yn frwdfrydig wrth iddynt gyrraedd, ac mae'r brwdfrydedd hwn yn parhau trwy gydol y sesiwn. Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol ac yn ddiogel, ac mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad llwyddiannus y plant yn yr holl weithgareddau.

Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad y plentyn. Maent yn gyfarwydd â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol. Maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddysgu trwy chwarae a phrofiadau ymarferol.

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob plentyn ac maent yn herio plant yn synhwyrol yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd. Maent yn ymyrryd yn feddylgar yn chwarae'r plant ac yn cymell plant i berfformio ar eu gorau yn ystod tasgau â ffocws a gweithgareddau parhaus. Mae ymarferwyr yn holi plant yn bwrpasol er mwyn datblygu eu medrau cyfathrebu, rhif a meddwl. Mae system gweithwyr allweddol y lleoliad yn sicrhau bod yr heriau a osodir ar gyfer gwahanol blant yn targedu eu datblygiad mewn llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus.

Mae gweithdrefnau ar gyfer asesu cyflawniadau plant yn gywir a defnyddiol. Mae pob ymarferwr yn cofnodi asesiadau dyddiol yn rheolaidd ac yn gyson. Maent yn trafod yn synhwyrol gyda phlant beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith yn ystod tasgau. Mae ymarferwyr yn cofnodi arfarniadau a thrafodaethau dyddiol yn

effeithiol yn ffeiliau'r plant. Maent yn gweddu'r dystiolaeth yn gydwybodol i ddeilliannau plant unigol, gan ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio tasgau sy'n targedu'r camau nesaf yn nysgu plant yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol yn anffurfiol gyda rhieni a gofalwyr ar ddiwedd y sesiwn. Mae'r lleoliad yn darparu adroddiadau addysgiadol i rieni pan fydd eu plentyn yn gadael y lleoliad i fynd i'r ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio trafodaethau grŵp yn synhwyrol i ystyried teimladau ei gilydd. Mae hyn yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at ei gilydd yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant fyfyrio, trafod eu teimladau a diolch i'w gilydd. Mae hyn yn creu amgylchedd digynnwrf, wrth i'r plant eistedd i wrando ar oedolion a phlant eraill. O ganlyniad, mae plant yn cymryd eu tro yn gwrtais wrth iddynt fwyta eu byrbrydau. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i blant ddatblygu eu hannibyniaeth amser byrbryd yn fwy cyfyngedig. Mae ymarferwyr yn arwain gweini'r ffrwythau, y llaeth a'r dŵr eu hunain, gan gyfyngu ar gyfleoedd i blant gydweithio a gwneud penderfyniadau.

Ceir trefniadau effeithlon i gefnogi iechyd a lles plant, gan gynnwys systemau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn dda iddynt. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cardfwrdd, nwyddau plastig a bwyd. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol sy'n dileu unrhyw fath o aflonyddwch neu weithredoedd gormesol. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel a saff ac mae ymarferwyr yn gofalu'n dda am y plant pan fyddant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi mannau cychwyn plant yn gywir pan fyddant yn dechrau yn y lleoliad gan ddefnyddio canllawiau o brofion sgrinio a Phroffil y Cyfnod Sylfaen. Mae ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd, ac yn gosod targedau sy'n bodloni anghenion dysgu ychwanegol plant yn effeithiol, yn enwedig eu hanghenion lleferydd ac iaith. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o gyngor gan asiantaethau allanol i wneud yn siwr eu bod yn darparu cymorth priodol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn brydlon.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol. Mae'n hyrwyddo ethos gofalgar trwy ei weithgareddau dyddiol. Mae pawb yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn effeithiol trwy ddefnyddio chwedlau moesol o Affrica a thrwy ddathlu gwyliau o bob cwr o'r byd, fel Diwali, Hanukkah a'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd.

Mae ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod pob un o'r plant yn cael yr un cyfle i elwa ar y meysydd dysgu a'r adnoddau. Mae gweithwyr allweddol yn adnabod pob un o'r plant yn dda. Maent yn deall ac yn ymateb i anghenion unigol plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn herio plant yn gadarnhaol, yn ofalus ac yn sensitif bob dydd i'w helpu i wneud cynnydd.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau yn llwyddiannus i fodloni'r rhan fwyaf o ofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion plant. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r ystod eang o adnoddau diddorol yn effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, tasgau â ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi dysgu. Mae ymarferwyr yn galluogi plant i ddefnyddio adnoddau yn annibynnol, sy'n hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn bwrpasol.

Mae'r ardal awyr agored yn ysgogol ac yn cynnwys ardaloedd tyfu a phlannu, offer dringo ac offer anturus. Mae sied chwarae rôl yn galluogi plant i actio a datblygu eu medrau dychmygus yn dda hefyd. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn defnyddio'r ardal awyr agored yn gyson i gyfoethogi profiadau plant, sy'n cyfyngu eu cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored. Ar hyn o bryd, mae symud yn annibynnol rhwng yr ardal dan do a'r ardal hygyrch yn yr awyr agored yn gyfyngedig. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r amgylchedd lleol yn dda i ychwanegu at brofiadau dysgu plant, fel ymweliadau â'r traeth ac â siopau lleol.

Mae'r adeilad yn lân ac yn cael ei gynnal yn dda ar y cyfan.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae amcanion, cynlluniau a pholisïau strategol y lleoliad yn canolbwyntio'n bwrpasol ar sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion plant ac yn eu helpu i wneud cynnydd da. Mae'r rheolwr yn arwain tîm o ymarferwyr ymroddgar yn llwyddiannus ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel o ymarferwyr a phlant fel ei gilydd. Mae'n llwyddo i'w hannog i wella mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a chefnogol. Mae'n darparu cyfeiriad cadarnhaol ar gyfer arferion dyddiol a thymor hir y lleoliad. Mae hyn yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau yn llwyddiannus. Mae gweledigaeth y rheolwr yn sicrhau bod ansawdd y cynllunio, yr addysgu, y gofal a'r amgylchedd dysgu i gyd yn dda.

Mae'r rheolwr yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i sicrhau gwelliannau yn y ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn wedi cynnwys datblygu'r defnydd o Broffil y Cyfnod Sylfaen, herio plant mwy abl mewn tasgau, gwahodd mwy o ymwelwyr i'r lleoliad a gwella ansawdd yr adborth i ymarferwyr eraill ar ôl cyrsiau hyfforddi. Mae'n canolbwyntio'n gydwybodol ar flaenoriaethau cenedlaethol hefyd, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd i wella medrau plant.

Mae'r rheolwr yn rhannu gwybodaeth am arferion y lleoliad yn dda gyda phob un o'r ymarferwyr. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio'r cwricwlwm a gweithgareddau cysylltiedig. Mae'r rheolwr ac uwch ymarferwyr yn sicrhau bod pob un o'r staff yn deall eu rolau yn llawn ac yn gweithio gyda'i gilydd bob dydd fel tîm.

Mae arferion goruchwylio a gwerthuso rheolaidd yn sicrhau bod rheolwyr yn gwneud y defnydd gorau o arbenigedd ymarferwyr. Mae hyn yn hynod amlwg mewn tasgau llythrennedd, rhifedd a thasgau creadigol a chymorth un-i-un ar gyfer plant unigol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu a gwelliant rheolaidd yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae'r rheolwr a'r uwch ymarferwyr wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau plant a safon y ddarpariaeth. Mae cydweithredu effeithiol a'r wybodaeth a gesglir yn rheolaidd, yn ogystal ag ymweliadau ac arfarniadau'r awdurdod lleol, yn cyfrannu'n dda at yr arfer hon. O ganlyniad, mae'r lleoliad wedi gwneud gwelliannau ystyrlon dros gyfnod, fel sicrhau bod y broses gynllunio yn targedu'r camau nesaf yn nysgu plant yn effeithiol.

Mae prosesau hunanarfarnu ffurfiol y lleoliad yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, maent yn ystyried safbwyntiau ymarferwyr, rhieni a gofalwyr a'r awdurdod lleol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae cynllun datblygu'r lleoliad yn nodi meysydd addas i'w gwella. Mae'r rheolwr yn blaenoriaethu gwariant yn dda yn unol â'r camau gweithredu ar gyfer gwella a nodwyd. Mae'n cytuno ar y targedau gydag ymarferwyr ac maent yn rhoi'r newidiadau ar waith gyda'i gilydd. Fodd bynnag, nid yw'r targedau yn y cynllun datblygu bob amser yn deillio'n uniongyrchol o broses hunanarfarnu'r lleoliad. Nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnwys digon o fanylion yn rheolaidd ynglŷn â sut a pham mae angen gwella rhai meysydd ymhellach.

Mae pob un o'r ymarferwyr yn awyddus i dderbyn syniadau newydd a awgrymir gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol ac maent yn gweithredu yn unol â'i chyngor yn rheolaidd. Mae hyn wedi arwain at welliannau rheolaidd, er enghraifft defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen i wella arferion asesu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau strategol effeithiol. Mae'n gweithio'n llwyddiannus gyda phartneriaid i wella darpariaeth a safonau a lles plant. Mae ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar ei waith. Mae'n eu hannog i gynnig eu barn ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau rheolaidd.

Mae'r bartneriaeth gyda Dechrau'n Deg wedi'i sefydlu'n dda. Mae'n cefnogi'r broses i greu man cychwyn cywir ar gyfer plant yn y lleoliad. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr i dargedu anghenion unigolion yn gynnar, a defnyddio arbenigedd asiantaethau allanol. Yn ychwanegol, ceir cysylltiadau cadarnhaol ag ysgolion lleol. Mae hyn yn cefnogi trefniadau pontio plant yn dda. Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau ac maent o fudd i'r plant wrth iddynt ymgynefino ag addysg gynradd.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol, colegau lleol a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru ar gyfer cymorth gweinyddol. Mae'r sefydliadau hyn yn cefnogi hyfforddiant ymarferwyr yn effeithiol, yn enwedig hyfforddiant yn gysylltiedig â chynllunio ac asesu gofynion y Cyfnod Sylfaen.

Mae cysylltiadau'r lleoliad â'r gymuned yn cefnogi dysgu'r plant yn dda. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau codi arian llwyddiannus a chynigion am gyllid grant. Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, sy'n meithrin gofal a charedigrwydd ymhlith y plant.

Mae ymarferwyr yn cysylltu a gweithio ag ystod eang o bartneriaid eraill sy'n gwneud cyfraniadau pwysig at wella darpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad â hyfforddiant mewn Cymorth Cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg, datblygiadau yn y Cyfnod Sylfaen a hyfforddiant amddiffyn plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r rheolwr yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad trwy ddefnyddio ymarferwyr yn ddeallus a dyrannu adnoddau yn briodol. Mae'n sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys, sydd wedi cael hyfforddiant perthnasol, i fodloni anghenion plant.

Mae arferion arwain pwrpasol yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae yna gymuned ddysgu fywiog lle mae cydweithredu effeithiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill yn cefnogi pob agwedd ar waith y lleoliad.

Mae systemau rheoli perfformiad yn effeithlon ac yn sicrhau bod plant yn elwa ar brofiadau dysgu diddorol ac arferion addysgu cadarnhaol. At ei gilydd, mae'r rheolwr yn sicrhau bod plant yn gallu defnyddio adnoddau digon diddorol i gefnogi eu dysgu yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes digon o adnoddau i helpu plant i ddatblygu eu medrau TGCh yn effeithiol.

Mae'r rheolwr yn defnyddio'r gyllideb yn bwrpasol ac yn blaenoriaethu gwariant yn unol â thargedau yn y cynllun datblygu yn effeithiol. Mae'n sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth i wella darpariaeth a deilliannau plant.

O ganlyniad i'r cynnydd cadarnhaol a wna plant o'u mannau cychwyn, y ddarpariaeth effeithiol a roddir ar waith gan ymarferwyr, a'r arweinyddiaeth bwrpasol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 13 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 79% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 13 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 13 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 13 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 28% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 13 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 13 | 13 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 83% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 13 | 10 | 3 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 13 | 13 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 13 | 12<br>92%<br>63% | 1<br>8%<br>31% | 0<br>0%<br>5% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 13 | 13<br>100%<br>80% | 0<br>0%<br>18% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 13 | 10<br>77%<br>65% | 3<br>23%<br>31% | 0<br>0%<br>3% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| My child is well prepared for moving on to school. | 13 | 10<br>77%<br>73% | 2<br>15%<br>26% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 13 | 8<br>62%<br>63% | 5<br>38%<br>32% | 0<br>0%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| The setting is well run. | 13 | 12<br>92%<br>82% | 1<br>8%<br>17% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |

# Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |